# Cysill a Gwirio Gwaith

**00:00** Helo a chroeso i'r cwrs Cyfathrebu. Mae'r recordiadau yma yn rhan o ddarpariaeth yr adran Hwb Sgiliau Hanfodol gyda'r Urdd.

**00:12** Bydd y sesiwn yma'n trafod sut i wirio eich gwaith a defnyddio Cysill.

**00:22** Y nodau a'r amcanion o'r sesiwn yw: Deall y gwahanol dechnegau a chamau i wirio eich gwaith a deall sut i ddefnyddio meddalwedd Cysill yn effeithiol i wirio'ch gwaith.

**00:37** I ddechrau, heb roi unrhyw strategaethau i chi ewch ati i weld sawl gwall gallwch chi ddarganfod yn y frawddeg yma.

Rhowch saib ar y fideo a chymerwch ychydig o funudau i wneud hyn. Gwnewch nodyn ar bapur o'r gwallau wnaethoch chi ddarganfod.

**00:57** Sawl gwall wnaethoch chi ffeindio heb unrhyw gymorth?

Mae modd categoreiddio'r prif fathau o wallau – mae'r allwedd isod o bosib yn rhoi fwy o gymorth i chi ffeindio rhai o'r gwallau sydd yn y darn.

Gall fod sillafu – mae cliw mawr gyda'r sillafu os yw iaith y cyfrifiadur wedi cael ei osod yn Gymraeg mae'r gwallau yn dod i fyny gyda llinell goch oddi tanyn nhw. Ydych chi'n gallu gweld unrhyw wallau sillafu ychwanegol?

Beth am yr atalnodi? Chwiliwch am bethau fel collnod, atalnod llawn, atalnod ac yn y blaen ac uwch-oleuwch yn wyrdd.

Darllenwch y brawddegau – oes unrhyw frawddegau yn rhy hir neu ddim yn llifo? Uwch-oleuwch yn las.

Oes yna rhai geiriau sydd angen priflythyren? Uwch-oleuwch yn felyn.

Yn olaf, chwiliwch os oes unrhyw eiriau angen treiglo. Yn aml, mae pobl yn gweld y rhan yma'n anodd i wirio, ond ceisiwch chwilio am eiriau sy'n achosi treigladau e.e. arddodiaid "am, ar, at, i a.y.b." a fy, dy. Bydd meddalwedd bwysig yn nes ymlaen yn gallu helpu gyda hyn hefyd.

**02:17** Sawl gwall wnaethoch chi ffeindio erbyn hyn? A wnaethoch chi ffeindio rhai ychwanegol? A wnaethoch chi weld y gwallau sillafu yma'n goch? Mae rhai yn wallau teipio "typos" a rhai yn wallau cyffredin sillafu yn y Gymraeg, er enghraifft geiriau sy'n defnyddio i, u ac y. Byddwn ni yn edrych yn ystod y sesiwn ar sut gallwn ni ddod o hyd i'r gwallau yma yn ein gwaith.

Beth am y gwallau atalnodi mewn gwyrdd? A wnaethoch chi sylwi fod priflythyren ar goll ar gyfer fy enw i? Neu fod angen priflythyren ar gyfer iaith? A wnaethoch chi weld fod angen collnod os oes 2 air wedi cael eu gwasgu at ei gilydd e.e. berfau + yr yw berfau'r? A wnaethoch chi weld fod angen atalnod (comas) rhwng geiriau wedi'u rhestru e.e. Berfau'r gorffennol, creu cyflwyniadau effeithiol ?

Pa dechnegau wnaethoch chi ddefnyddio i weld y camgymeriadau yma? Wnaethoch chi ddarllen llinell wrth linell? Gair am air? Sgimio neu sganio'r holl baragraff? Edrych am un fath o wall ar y tro?

Dyma rhai o'r strategaethau gallwn ni ddefnyddio wrth wirio ein gwaith ni.

**03:39** Mae'n holl bwysig eich bod yn gwirio eich gwaith cyn ei yrru at eich tiwtor/aseswr neu yn ei rannu yn gyhoeddus.

Cyn anfon gwaith, gwiriwch y: Sillafu, Gramadeg, Treigladau, Fod y brawddegau yn llifo ac yn gwneud synnwyr a bod y gwaith o safon uchel.

Pa strategaethau gallwch chi ddefnyddio i wirio eich gwaith?

**04:09** I grynhoi, mae 7 prif gam ar gael i allu gwirio eich gwaith yn effeithiol.

Hyd yn hyn, rydyn ni wedi trafod cam 1, sef darllen dros y gwaith yn gyfan gwbl am y tro cyntaf.

Yn ail, defnyddiwch offer cyfrifiadur i wirio, er enghraifft Cysill a newidiwch y gosodiadau iaith ar "Word" i'r Gymraeg.

Gall rhai gwallau gael eu darganfod wrth ail-ddarllen y gwaith yn uchel, er enghraifft os yw brawddeg yn rhy hir neu ddim yn gwneud synnwyr.

Yna, gall rhai gwallau sillafu o bosib cael eu gweld wrth ddarllen y geiriau o'r dde i'r chwith.

Rydym eisoes wedi edrych ar gam 5, sef edrych ar fathau o wallau, un ar y tro - er enghraifft gallwch edrych ar sillafu yn gyntaf, yna edrych ar wallau priflythyren ac yn y blaen.

Cam 6 yw gadael amser rhwng darllen eich gwaith – mae'n bwysig cael saib i weld unrhyw wallau gyda llygaid newydd.

Yna, darllenwch am y tro olaf trwy'r gwaith cyn ei gyhoeddi, ei rannu neu ei anfon at rywun.

**05:20** Cam 1; Darllenwch y gwaith yn gyfan gwbl.

Wrth i chi ddarllen y gwaith, efallai bydd gan rai geiriau dan linelliad igam ogam coch. Golyga hyn fod y geiriau wedi cael eu camsillafu. Ar eich llygoden, de-gliciwch ar y gair gyda'r tan linelliad a bydd un neu fwy o opsiynau yn ymddangos i'w gywiro. Os nad ydych yn siŵr pa sillafiad sy'n gywir ar gyfer y cyd-destun, ymchwiliwch y gair ar Cysgeir neu mewn geiriadur i ddarganfod yr un rydych chi'n ei olygu.

**05:58** Pwynt pwysig i gofio: Sicrhewch fod iaith eich cyfrifiadur neu "Word"/ prosesydd geiriau yn y Gymraeg. Bydd hyn yn helpu gweld gwallau mewn coch ac yn osgoi awto-gywiro (*autocorrect*) ar eiriau e.e. 'I' fawr yn Saesneg.

**06:19** Mae yna ddwy dechneg darllen gallwn ddefnyddio i wirio ein gwaith a darllen y gwaith am y tro cyntaf: Sgimio a Sganio.

Ystyr 'sgimio' yw 'cymryd cipolwg cyflym'. Mae'n dechneg darllen gyflym lle mae'r darllenydd yn talu sylw i'r prif bwyntiau yn y darn yn unig er mwyn cael syniad cyffredinol o'r cynnwys. Wrth sgimio, mae'r testun sy'n cynnwys manylion diangen, straeon, enghreifftiau neu ddata arall wedi'u tynnu allan yn bwrpasol. Pethau gallwch chi fod yn edrych arno yw penawdau ac is-benawdau, geiriau wedi'u hamlygu mewn "bold" neu danlinellu, prif allweddeiriau a'r frawddeg gyntaf ac olaf o baragraff.

Ystyr 'sganio' yw 'edrych am rywbeth'. Mae sganio yn dechneg darllen pan fyddwch yn chwilio am rywfaint o wybodaeth neu destun penodol mewn darn darllen, heb ddarllen y testun yn drylwyr. Felly. pan fyddwch chi'n sganio rhywfaint o ddeunydd rydych chi eisoes yn gwybod am beth rydych chi'n chwilio. Pethau gallwch chi fod yn edrych arno yw enwau, rhifau, dyddiadau, geirfa benodol.

**07:39** Cam 2; Darllenwch y gwaith allan yn uchel neu ar goedd!

Mae'r cam yma'n holl bwysig er mwyn sicrhau bod y brawddegau'n llifo. Efallai byddech yn sylweddoli ar frawddeg sydd angen cael ei drosi i wneud synnwyr, neu byddech yn rhedeg allan o wynt ac yn sylwi bod angen ychwanegu coma neu atalnod llawn!

**08:06** Cam 3; Gwiriwch eich gwaith drwy ddefnyddio Cysill.

Mae Cysill yn feddalwedd sy'n gwirio gramadeg. Mae'n gwirio ac yn rhoi opsiynau sillafu, treigladau ac yn awgrymu'r angen am atalnodi yn eich gwaith. Ond, mae Cysill eisiau cywiro POPETH felly mae'n bwysig gwirio beth sydd angen cywiro cyn cytuno.

**08:34** Sut allwch chi ddefnyddio Cysill?

1. Copïwch eich gwaith o'r ddogfen a'i ludo yn Cysill.

2. Cliciwch ar 'Gwirio'

3. Bydd Cysill wedyn yn mynd trwy'r ddogfen gyfan yn cywiro treigladau, camsillafiadau a hyd brawddegau ond yn gofyn i chi bob tro os ydych yn derbyn y cywiriad hwnnw.

4. PEIDIWCH glicio ar 'Cywiro' yn syth i bob un, mae angen gweld beth mae Cysill yn cywiro ac mae angen gwirio os ydy hynny'n gwneud synnwyr yn eich gwaith chi.

5. Parhewch i gywiro'r ddogfen trwy Cysill tan mae'n dweud 'wedi gorffen gwirio'.

6. Copïwch y gwaith cyfan o Cysill a'i ludo yn ôl yn eich dogfen chi yn awtomatig.

Mae gwasgu 'ctrl + alt + w' pan mae Cysill ar agor yn gludo'r testun i mewn yn awtomatig ac yn trosglwyddo unrhyw newidiadau nol

**09:40** Weithiau, mae darllen o'r cefn i'r blaen mewn brawddeg neu air yn helpu gweld gwallau sillafu neu deipio. Mae hefyd yn dda i weld geiriau sydd yn y drefn anghywir mewn brawddeg. Er enghraifft – beth ddylai sillafiad y gair yma fod? Fe welwch fod gwall sillafu neu deipio fan hyn a bod angen datrys hyn.

**10:07** Rydym eisoes wedi trafod y cam yma, ond mae'n bwysig weithiau os ydyn ni wedi darllen ein gwaith dro ar ôl tro i ddefnyddio techneg darllen sganio ac edrych yn benodol ar wallau cyffredin yn ein gwaith.

Edrychwch os oes atalnod llawn yn y lle cywir. Os oes angen priflythrennau am enwau llefydd, pobl ac yn y blaen. Yn bersonol, dw i'n berson sy'n gorfod gwirio fy nhreigladau, felly gallwch fod yn edrych ar sbardun y treiglad hynny yn eich gwaith er enghraifft a gwirio y math o dreiglad sydd angen ar gyfer y llythyren.

Gallwch hefyd wasgu "ctrl a f" ar ddogfen Word i deipio gair penodol i mewn a bydd yn uwch-oleuo pob darn i chi.

**11:02** Ewch ati i wneud y dasg cywiro yma. Defnyddiwch yr holl gamau gwirio wnaethom ni ddefnyddio.

Mae'r darn o flog yn sôn am wyliau'r person i Ganada.

Rhowch y fideo ar saib wrth i chi wneud hyn a defnyddiwch yr holl strategaethau wnaethon ni sôn amdano.

**11:24** Y cam olaf yw darllen y gwaith eto – Sicrhewch fod y brawddegau dal yn gwneud synnwyr ar ôl i Cysill ei wirio. Yna ymlaciwch!

**11:40** Diolch yn fawr iawn i chi am ymuno a chwblhau'r gwaith gyda ni. Am ragor o wybodaeth a thasgau ar y pwnc 'Cysill a Gwirio Gwaith' ewch i'n gwefan a defnyddio'r adnodd Cyfathrebu. Defnyddiwch y cod QR i fynd yn syth ato. Dyma ddolen at yr adnodd. Cofiwch wylio'r recordiad nesaf sy'n cyd-fynd gyda phynciau'r adnodd.